## Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru ar gyfer Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir

Allwedd Statws

| | |
|---|---|
| (glas) | Wedi'i gwblhau |
| (gwyrdd) | Cynnydd da |
| (melyn) | Cynnydd cyfyngedig |
| (coch) | Dim Cynnydd |

**Dyddiad Archwilio: 15 – 23 Mawrth 2017**
**Dyddiad yr Ymweliad Dilynol: 3 – 4 Medi 2019**

| Argymhelliad | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 3.23 (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol ar gyfer hylendid a safonau bwyd yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid rhoi amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau yn erbyn y rheiny sydd ar gael. [ Y Safon – 3.1] | (gwyrdd) | | Mae gwelliannau wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwasanaeth ar gyfer 2019/20, yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth. | Sicrhau bod cynlluniau gwasanaeth bwyd yn y dyfodol yn cael eu datblygu ymhellach yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth i gynnwys y canlynol:<br>- O fewn y cynllun Iechyd Porthladd, amcangyfrifiad o nifer yr arolygiadau gwirio glanweithdra, arolygiadau preswyl a gwiriadau amlwg a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn, yn seiliedig ar weithgarwch y blynyddoedd blaenorol. |
| 3.23 (ii) Sicrhau bod yr adolygiad perfformiad blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol yn erbyn y cynllun gwasanaeth bwyd ac unrhyw dargedau, safonau a chanlyniadau perfformiad a nodwyd. [Y Safon – 3.2] | (melyn) | | Roedd yr adolygiad perfformiad blynyddol o fewn y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys peth o'r wybodaeth ofynnol. | Sicrhau bod yr adolygiad perfformiad blynyddol o fewn y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth ac unrhyw dargedau, safonau a chanlyniadau perfformiad a nodwyd gan gynnwys:<br>- Data perfformiad clir ar gyfer ymyriadau a gyflawnwyd.<br>- Adolygiad o sefydliadau safonau bwyd â sgoriau B a C.<br>- Prydlondeb yr ymateb i ymyriadau adweithiol fel ceisiadau gwasanaeth. |

| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| 3.23 (iii) Sicrhau ei fod yn mynd i'r afael ag unrhyw amrywiadau o ran bodloni'r cynllun gwasanaeth bwyd mewn cynllun dilynol. [Y Safon – 3.3] | | | Mae'r mwyafrif o amrywiannau yn cael eu nodi, eu hesbonio a'u cynnwys fel meysydd i'w gwella yn y cynllun dilynol. | Sicrhau bod pob amrywiant yn cael sylw gan gynnwys:<br>- Amrywiannau wrth gyflawni ymyriadau safonau bwyd Categori B a C sydd angen eu cwblhau.<br>- Yr amrywiant yn nifer y sefydliadau heb sgôr yr adroddwyd amdanynt mewn perthynas â'r sefydliadau heb sgôr hynny sydd â sgôr safonau bwyd hanesyddol na chafodd ei rhoi yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.<br>- Yr amrywiant mewn samplau safonau bwyd a gymerwyd mewn perthynas â'r rhaglen arfaethedig o samplau. |
| 5.9 (i) Sicrhau y caiff nifer priodol o swyddogion awdurdodedig eu penodi i gyflawni rheolaethau swyddogol hylendid bwyd a safonau bwyd, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Sicrhau bod lefel awdurdodi swyddogion yn gyson â chymwysterau, hyfforddiant a phrofiad ym mhob achos. [Y Safon – 5.3] | | | Mae awdurdodiadau swyddogion safonau masnach yn cael eu hadolygu gan ddefnyddio dull diwygiedig o asesu cymhwysedd. | Mae'r asesiad adnoddau yn y Cynllun Gwasanaeth yn nodi gwahaniaeth rhwng nifer y swyddogion llawn amser o'i gymharu ag amcangyfrifiad o nifer y swyddogion llawn amser sy'n ofynnol.<br>Mae diffyg mewn ymyriadau hylendid a safonau bwyd â sgôr a heb eu sgorio wedi'u cwblhau yn unol â'r amlder a nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.<br>Sicrhau bod nifer priodol o swyddogion awdurdodedig yn cael eu penodi i ddarparu rheolaethau swyddogol hylendid bwyd a safonau bwyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Sicrhau fod dogfennau awdurdodi diwygiedig yn cael eu cyhoeddi ar gyfer swyddogion safonau masnachu yn seiliedig ar eu cymwysterau, eu hyfforddiant a'u profiad. |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 5.9 (ii) Sicrhau bod yr holl swyddogion awdurdodedig yn bodloni'r gofynion hyfforddi a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.4] | | | Roedd hyfforddiant a wnaed gan swyddogion yn bodloni'r gofynion. | Wedi'i gwblhau. |
| 5.9 (iii) Cynnal cofnodion o'r holl hyfforddiant a phrofiad perthnasol ar gyfer swyddogion awdurdodedig. Y Safon – 5.5] | | | Roedd cofnodion o hyfforddiant a phrofiad yn cael eu cadw. | Wedi'i gwblhau |
| 7.30 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | | | Roedd nifer y safleoedd risg uchel, risg is a safleoedd heb eu sgorio sy'n aros am ymyriad wedi cynyddu ers yr archwiliad gwreiddiol. | Sicrhau bod pob sefydliad busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.30 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd a chymeradwyo a chofrestru sefydliadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i weithdrefnau ei hun. Yn benodol, sicrhau, lle bo hynny'n berthnasol, bod sgôr risg ymyrryd yn cael ei dyfarnu'n gyson a bod y cynllun gorfodi amgen yn cael ei gynnal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 7.2] | | | Roedd prosesau ymyriad a chymeradwyo wedi gwella. | Sicrhau bod cofnod o'r dyddiad y daeth i law yn cael ei gadw ar gyfer pob ffurflen gofrestru.<br><br>Sicrhau y glynir at y broses gywir o gymeradwyo safle yn gyson.<br><br>Sicrhau bod arolygiad yn cael ei gynnal ar ôl cynnal gweithgarwch cynllun gorfodi amgen, lle bo hynny'n briodol. |
| 7.30 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn llawn i'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol, a chymryd camau priodol ar unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio a nodir, yn unol â'i bolisi gorfodi. [Y Safon – 7.3] | | | Roedd y prosesau asesu wedi gwella. | Sicrhau bod gwiriadau ar fwydydd a fewnforir a marciau adnabod sy'n dod i mewn yn cael eu cynnal yn gyson.<br><br>Ar gyfer safleoedd cymeradwy, sicrhewch fod marciau adnabod/iechyd sy'n dod i mewn a'r broses o gymhwyso marciau adnabod sy'n mynd allan yn cael eu hasesu'n gyson. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.30 (iv) Sicrhau bod y gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer ymyriadau yn cael eu hadolygu i gynnwys cyfeiriad at y trefniadau lleol ar gyfer fflagio, amserlenni ar gyfer ailymweliadau a chyfarwyddyd ar gyfer swyddogion ar b'un a ddylid cymryd samplau. Yn ogystal, diwygio'r Weithdrefn Ymyrryd Diogelwch Bwyd Amgen, i gynghori ar y camau sydd i'w cymryd gyda busnesau nad ydynt yn ymateb. [Y Safon – 7.4] | | | Roedd gweithdrefnau ymyriad hylendid bwyd a'r aide memoire wedi'u diweddaru. | Wedi'i gwblhau. |
| 7.30 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu'r data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad hylendid bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | | | Roedd prosesau cofnodi wedi gwella. | Sicrhau bod graddfa gweithgarwch busnes yn cael ei chofnodi'n gyson yn ystod ymyriadau. |

| Argymhelliad | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 7.40 (i) Cynnal arolygiadau llong yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i weithdrefnau ei hun. Yn benodol, dylai sicrhau bod adroddiadau arolygu a thystysgrifau eithrio llongau yn cael eu cwblhau yn unol â'i weithdrefnau. [Y Safon – 7.2] | | | Nodwyd gwelliannau yng nghysondeb cofnodion, adroddiadau a thystysgrifau ymyriadau llongau. Adroddiadau yn cael eu darparu'n gyson i'r perchennog, y cwmni a'r awdurdodau eraill lle bo hynny'n briodol. | Sicrhau bod arsylwadau'n cael eu cofnodi a'u cynnal ar ffeil ar gyfer yr holl arolygiadau glanweithdra a bod pob adroddiad yn cynnwys dyddiad adeiladu'r safle, p'un a gymerwyd samplau, a rôl y swyddog. |
| 7.40 (ii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn llawn yn unol â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3] | | | Nodwyd gwelliannau yng nghysondeb asesiadau ymyriadau llongau. | Sicrhau bod pob archwiliad llong yn cynnwys asesiad llawn o gydymffurfiaeth yn erbyn gofynion priodol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.55 (i) Sicrhau y caiff ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd eu cynnal ar yr amlder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | | | Roedd nifer y safleoedd â sgôr risg a safleoedd heb sgôr a oedd yn aros am ymyriad wedi cynyddu ers yr archwiliad gwreiddiol. | Sicrhau bod pob sefydliad busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. |
| 7.55(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | | | Roedd sgoriau risg bellach yn cael eu cymhwyso ac yn defnyddio cynllun sgorio risg priodol. | Sicrhau mai dim ond y safleoedd hynny sy'n gymwys ar gyfer strategaethau gorfodi amgen sy'n cael eu cynnwys ac na roddir sgôr risg yn dilyn ymyriad strategaeth gorfodi amgen. |
| 7.55 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn unol â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol [Y Safon – 7.3] | | | Roedd asesiadau wedi gwella mewn perthynas â sefydliadau | Sicrhau bod gweithgareddau safonau bwyd perthnasol yn cael eu hasesu'n gyson, lle bo hynny'n briodol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | gweithgynhyrchu | |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.55 (iv) Adolygu, diwygio a gweithredu'r weithdrefn arolygu safonau bwyd i gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â chofnodi achosion sylweddol o ddiffyg cydymffurfio, amserlenni ar gyfer camau dilynol a'r dull o ymdrin ag arolygiadau mewn busnesau newydd i sicrhau bod y weithdrefn yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.4] | | | Mae'r weithdrefn wedi ei diwygio. | Wedi'i gwblhau. |
| 7.55 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu'r data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad safonau bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | | | Peth gwelliant wrth gofnodi arsylwadau gan gynnwys datblygu aide-memoire ar gyfer safleoedd gweithgynhyrchu. | Sicrhau bod cofnodion cyfoes o arsylwadau arolygiadau ar gael ym mhob achos a bod maint a graddfa gweithgareddau busnes yn cael eu cofnodi'n gyson. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 8.7 (i) Sicrhau yr ymchwilir i gwynion neu geisiadau am wasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau'r Gwasanaeth. [Y Safon – 8.2] | | | Ymchwiliwyd yn gyson i gwynion hylendid bwyd yn unol â'r gofynion.<br><br>Lle y bo'n briodol, cymerwyd camau dilynol mewn ymateb i ymchwiliadau i geisiadau gwasanaeth safonau bwyd. | Sicrhau bod ymchwiliadau i geisiadau gwasanaeth safonau bwyd yn cael eu hymchwilio'n drylwyr, mewn modd amserol a bod y rheiny sy'n cwyno, lle bo hynny'n berthnasol, yn cael eu hysbysu o'r canlyniad ym mhob achos. |
| 9.6 (i) Sicrhau ei fod yn cysylltu â'r Prif Awdurdodau mewn perthynas â throseddau a nodir o ganlyniadau samplu hylendid bwyd anfoddhaol. [Y Safon – 9.1] | | | Gwnaed gwelliannau i brosesau. | Wedi'i gwblhau. |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |

| Argymhelliad | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 11.5 (i) Sicrhau bod data sgorio risg, dyddiadau arolygu dyledus ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd a data gorfodi hylendid bwyd wedi'u cofnodi'n gywir a'u cadw'n gywir ar gronfa ddata'r Gwasanaeth. Hefyd, mae angen sicrhau mai dim ond y sefydliadau hynny sydd wedi cael arolygiad safonau bwyd sy'n cael eu sgorio felly ar y gronfa ddata, a dim ond y rheiny sy'n destun ymyriad amgen sy'n cael eu codio yn unol â hynny. [Y Safon – 11.1] | | | Mae mabwysiadu cronfa ddata newydd yn llawn wedi lleihau gwallau data. | Sicrhau bod gwiriadau ar wallau sgorio risg cronfa ddata a dyddiadau dyledus yn cael eu gweithredu.<br>Sicrhau bod camau gorfodi wedi'u codio'n gywir ar y gronfa ddata.<br>Sicrhau bod y sefydliadau heb sgôr hynny sydd â sgôr safonau bwyd hanesyddol na chafodd ei rhoi yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn cael eu nodi fel sefydliadau heb eu sgorio. |
| 11.5 (ii) Gweithredu ei weithdrefnau cofnodedig yn llawn ar gyfer sicrhau bod ei gronfa ddata yn gywir, yn ddibynadwy ac yn gyfoes bob amser. [Y Safon – 11.2] | | | Roedd cronfa ddata safleoedd yn parhau i fod yn gyfredol. | Wedi'i gwblhau. |
| 12.12 (i) Adolygu a diwygio ei bolisi samplu ar gyfer archwilio a dadansoddi bwyd yn ficrobiolegol ac yn gemegol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.4] | | | Roedd y polisi samplu wedi'i ddiwygio. | Wedi'i gwblhau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 12.12 (ii) Adolygu a diwygio ei weithdrefnau cofnodedig ar gyfer samplu a dadansoddi bwyd yn ficrobiolegol ac yn gemegol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5] | | | Roedd y weithdrefn samplu wedi'i diwygio. | Wedi'i gwblhau. |
| 12.12 (iii) Sicrhau bod busnesau yn cael gwybod am ganlyniadau samplu hylendid bwyd anfoddhaol yn unol â'i bolisi a'i weithdrefn gofnodedig. [Y Safon – 12.6] | | | Rhoddwyd gwybod i fusnesau fel y bo'n briodol. | Wedi'i gwblhau. |
| 12.12 (iv) Cymryd camau priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi lle nad ystyrir bod canlyniadau sampl hylendid bwyd yn foddhaol. [Y Safon – 12.7] | | | Roedd y camau a gymerwyd yn gyson â'r Polisi Gorfodi. | Wedi'i gwblhau. |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 15.21 (i) Adolygu, diwygio a gweithredu ei weithdrefnau ar gyfer Hysbysiadau Gwella Hylendid, | | | Roedd y gweithdrefnau ar gyfer camau | Wedi'i gwblhau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Hysbysiadau Camau Unioni, Hysbysiadau Gwahardd Hylendid Brys, cytundebau cau gwirfoddol a chadw bwyd, atafael, ardystio Rheoliad 27 ac ildio i gynnwys manylion trefniadau lleol, yn benodol; drafftio (gan gynnwys defnyddio templedi cymeradwy), dull a chofnod o'r gwasanaeth. Dylid diwygio'r gweithdrefnau ar gyfer Hysbysiadau Gwella Hylendid, Hysbysiadau Camau Unioni, Hysbysiadau Gwahardd Brys (Hylendid) a chytundebau cau gwirfoddol i gynnwys trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth. Dylai gweithdrefnau gwahardd hefyd gynnwys prosesau cyfreithiol lleol ar gyfer gwneud cais am Orchymyn Llys. Dylid diwygio'r gweithdrefnau ar gyfer cadw, atafael, ardystio (Rheoliad 27) ac ildio i gynnwys trefniant lleol ar gyfer condemnio a dinistrio neu waredu bwyd. [Y Safon - 15.2] | | | gorfodi wedi'u diwygio. | |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 15.21 (ii) Sefydlu gweithdrefnau gorfodi cofnodedig ar gyfer camau dilynol a gorfodi mewn perthynas â hysbysiadau gwella gwybodaeth bwyd, erlyniadau, rhybuddion syml | | | Roedd gweithdrefnau ar gyfer rheoli mewndirol bwyd wedi'i | Sicrhau bod y weithdrefn ar gyfer defnyddio Hysbysiadau Gwella gwybodaeth bwyd wedi'i dogfennu. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| a bwyd wedi'i fewnforio yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon - 15.2] | | | fewnforio ac erlyn a chyflwyno rhybudd syml wedi'u cofnodi. | Sicrhau bod swyddogion yn cael eu cyfeirio'n glir at unrhyw ddogfennau templed i'w defnyddio ar y cyd â'r erlyniad a gweithdrefnau cyflwyno rhybudd syml. |
| 15.21 (iii) Sicrhau bod gorfodi cyfraith bwyd yn cael ei gyflawni yn unol â'i weithdrefnau, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau swyddogol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safonau – 15.2 a 15.3] | | | Roedd gweithredoedd a phrosesau gorfodi wedi gwella. | Sicrhau bod gwiriadau cydymffurfiaeth amserol yn cael eu cwblhau mewn perthynas â Hysbysiadau Gwella Hylendid a Hysbysiadau Camau Unioni a bod manylion y llys lleol yn cael eu cynnwys gyda phob Hysbysiad Camau Unioni.<br>Sicrhau bod tystiolaeth o'r awdurdodiad cywir a chytundeb â phrofion perthnasol gan Swyddog Erlyn yr awdurdod lleol, ar gyfer pob erlyniad, yn cael ei gynnal gan bob un o'r awdurdodau lleol ar ffeiliau achos SRS. Sicrhau bod cofnodion datgelu yn cael eu llofnodi yn unol â'r gweithdrefnau. |
| 15.21 (iv) Sicrhau bod ei Bolisi Cydymffurfio a Gorfodi wedi'i weithredu'n llawn, a sicrhau bod y rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a bennwyd yn y Polisi yn cael eu cofnodi. [Y Safonau – 15.1 a 15.4] | | | Gweithredir Polisi Cydymffurfiaeth a Gorfodi yn gyson. | Wedi'i gwblhau. |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 16.7 (i) Cadw cofnodion cyfredol a chywir ar gyfer pob sefydliad bwyd yn ei ardal, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn | | | Gwnaed gwelliannau mewn perthynas â chofnodion | Wedi'i gwblhau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ganolog. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar bob ymyriad / arolygiad sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen yn Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, elfennau craidd HACCP, pennu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol y swyddog awdurdodedig, manylion y camau a gymerwyd lle nodwyd diffyg cydymffurfio, manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd ac ar gyfer sefydliadau cymeradwy, yr wybodaeth sy'n ofynnol yn Atodiad 10 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1] | | | sefydliadau cymeradwy a sefydliadau heb eu cymeradwyo a chynnwys adroddiadau ar ymyriadau. | |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 16.12 (i) Cynnal cofnodion cywir cyfredol o'r holl sefydliadau bwyd yn ei ardal, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau pob | | | Roedd modd cael gafael ar ffurflenni adrodd yn gyson ar gyfer safleoedd nad ydynt yn | Sicrhau bod modd cael gafael ar adroddiad priodol ar gyfer pob ymyriad a'i fod yn cynnwys yr holl wybodaeth a nodir yn Atodiad 6. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ymyriad/arolygiad sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, pennu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol y swyddog awdurdodedig, canlyniadau samplu a chwynion. Dylai'r awdurdod hefyd gofnodi, gyda rhesymau, unrhyw achosion o wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1] | | | gweithgynhyrchu. | |
| 16.12 (ii) Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw am o leiaf 6 blynedd. [Y Safon – 16.2] | | | Mae cadw cofnodion wedi gwella. | Wedi'i gwblhau |
| **Argymhelliad** | **Statws** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 19.11 (i) Gweithredu ei weithdrefnau monitro mewnol cofnodedig yn llawn i gynnwys ymyriadau safonau bwyd a gynhelir gan bob tîm, ymyriadau iechyd porthladdoedd, ymchwiliadau i glefydau heintus, digwyddiadau, ceisiadau am | | | Gweithdrefnau monitro mewnol ar waith yn rhannol. | Gweithredu'r gweithdrefnau’n llawn yn unol â'r argymhelliad; sicrhau bod cofnodion monitro mewnol yn cael eu datblygu a'u cwblhau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| wasanaeth safonau bwyd, Strategaethau Gorfodi Amgen, a chamau dilynol ar samplau. [Y Safon – 19.1] | | | | |
| 19.11 (ii) Ar gyfer hylendid a safonau bwyd, gwirio ei gydymffurfiaeth â'r Safon, y ddeddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd perthnasol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod. [Y Safon – 19.2] | | | Roedd gweithgareddau cyfyngedig i wirio cydymffurfiaeth wedi'u gweithredu. | Sicrhau bod y system ar gyfer monitro mewnol yn caniatáu ar gyfer gwirio cydymffurfiaeth yn llawn. |

Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **35** |
| **Wedi'i gwblhau** | **14** |
| **Cynnydd da** | **13** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **6** |
| **Dim Cynnydd** | **2** |
| **Heb eu profi** | **0** |
| **Yn weddill** | **21** |